# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 09/02/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Gofal Iechyd

**C11 Angela Burns:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gofal iechyd yn y gorllewin? OAQ(3)2619(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd diogel a chynaliadwy yng ngorllewin Cymru, sy'n diwallu anghenion gofal iechyd ein dinasyddion.

### Gwella Ysgolion

**C12 Jonathan Morgan:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyrraedd ei thargedau ar gyfer gwella ysgolion? OAQ(3)2632(FM)

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn gwneud cynnydd ardderchog o ran bodloni'r targedau sydd wedi eu gosod yn 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith'. Yr ydym wedi rhagori ar lawer o'r targedau a gwneud cynnydd cadarnhaol i fodloni rhai eraill. Bydd y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion yn sicrhau ein bod yn datblygu ar y llwyddiant hwn, gan hyrwyddo gwelliant parhaus ym mhob ysgol.

### Agenda Bolisi

**C13 Andrew R.T. Davies:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei agenda bolisi ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad? OAQ(3)2629(FM)

**Y Prif Weinidog:** Ein hagenda bolisi ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad yw parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol. Byddwn yn gwneud penderfyniadau anodd ar wariant, a byddwn yn gosod y sylfeini am adferiad economaidd cynaliadwy. Byddwn hefyd yn ceisio ennill mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### Gemau Olympaidd 2012

**C14 Rosemary Butler:** Pa asesiad mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o fanteision posibl Gemau Olympaidd 2012 Llundain i bobl Casnewydd? OAQ(3)2613(FM)

**Y Prif Weinidog:** Bydd athletwyr Paralympaidd o safon fyd-eang o Awstralia a De Affrica, a thîm beicio Olympaidd Prydain Fawr yn cael eu gweld ac yn ysbrydoli, gan hyfforddi cyn y gemau yng Nghasnewydd. Dylai llwybr y ffagl gynnwys y ddinas, ac mae rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd ardderchog yn sicrhau bod cystadlaethau'r gemau yn hygyrch iawn.

*Tynnwyd cwestiwn 15, OAQ(3)2637(FM), yn ôl.*